❖ Mae Angen y Nadolig

Yn y dechreuad…
ymhell bell yn ôl,
yn rhy bell i'w amgyffred
cyn bod nos a dydd,
goleuni a thywyllwch,
cyn bod ffurfafen a dyfroedd –
nid oedd angen Nadolig.
Nid oedd angen Duw i ddod i'n byd
i'w gymodi ag ef ei hun.
Nid oedd dyn yn bodoli o gwbl.
Ond roedd Duw yn bod ymhell bell yn ôl
yn y dechreuad hwnnw.

Yn y dechreuad yr oedd y Gair
a'r gair gyda Duw
a Duw oedd y Gair.
Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw
a daeth y Gair yn gnawd.

Bellach roedd angen Nadolig
ar fyd a wyddai am dywyllwch a nos;
ar fyd a wyddai am drais Herod
a gormes Rhufain.

Preswyliodd y Gair yn ein plith
yn llawn gras a gwirionedd.

Mae angen gras a gwirionedd
Ar fyd sy'n mynnu llygad am lygad
A dant am ddant.

Oes, mae angen y Nadolig arnom o hyd.

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com